| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | Gweithgaredd Didoli Cardiau |
| Disgrifiad: | Mae'r gweithgaredd didoli cardiau'n cynnwys rhestr o dechnegau perswadio a fydd yn hanfodol i ddysgwyr eu defnyddio pan fyddant yn symud ymlaen at y dasg olaf, sef ceisio gwerthu Talacharn i ddarpar dwristiaid. |
| Blynyddoedd ysgol: | CA3 |
| Cysylltiad â'r FfLlRh: | **Llafaredd: Siarad - Blwyddyn 8**<br>• ymateb i farn eraill yn gadarnhaol a phriodol o gael eu herio<br>• amddiffyn dadl gyda gwybodaeth a rhesymau, e.e. wrth chwarae rôl neu<br>mewn dadl |
| Testun Dylan Thomas | |
| Adnoddau sydd eu hangen: | • Taflenni Gweithgaredd Didoli Cardiau<br>• Copi atebion yr athro er mwyn eu gwirio |
| Trefn addysgu a awgrymir: | • Gellid asesu'r dysgu blaenorol drwy ddarllen drwy'r technegau ac annog y dysgwyr i feddwl am y geiriau a ddefnyddir, e.e. 'cwestiwn rhethregol' - awgrymwch y dylai'r cerdyn sy'n cyfateb i hyn ddefnyddio marc cwestiwn, ac ati<br>• Tasg gychwynnol cyn dechrau ar weithgaredd y cyflwyniad PowerPoint. Wrth symud ymlaen i'r cyflwyniad PowerPoint, dylai fod gan y dysgwyr yr enghreifftiau a'r diffiniadau wedi'u gludo yn eu llyfrau er mwyn gallu cyfeirio atynt. |
| Gweithgareddau estyn: | • Gellid gosod gwaith pâr neu grŵp yn gofyn i'r dysgwyr feddwl am enghreifftiau o'r technegau wrth geisio 'gwerthu' neu annog eraill i gymryd rhan mewn gweithgaredd na fydden nhw'n ei fwynhau o angenrheidrwydd.<br>• Gellid sôn am hysbysebion / hysbysebu drwy ofyn i'r dysgwyr ystyried sut mae cwmnïau'n llwyddo i'n hannog ni i brynu eu cynnyrch ac ati.<br>• Defnyddio'r cyflwyniad 'Gwerthu Talacharn' i gadarnhau dealltwriaeth |
| Addasu ar gyfer grwpiau oedran eraill: | Ceir adnodd (Saesneg) ar wahân ar gyfer CA4 |